

Y Gymraeg yn Sir Gâr

**Paratowyd gan:
Gweithgor y Cyfrifiad**

Dyddiad: Mawrth 2014



Mynegai

		Rhif tudalen
	Rhagair gan y Cadeirydd	3
1.0	Cefndir	5
2.0	Dull gweithredu	12
3.0	Canfyddiadau ac Argymhellion	14
4.0	Atodiadau	41
	Atodiad 1: Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth Gweithgor y Cyfrifiad	42
	Atodiad 2: Ysgolion fesul categori iaith	44
	Atodiad 3: Sefydliadau ac unigolion a fu'n cyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor	48

Rhagair gan y Cadeirydd

Mae'r iaith Gymraeg wedi cyrraedd croesffordd yn Sir Gaerfyrddin. Gall barhau i ddirywio fel y gwnaeth yn gyson ers canol yr ugeinfed ganrif neu gall ddilyn llwybr o adfywiad a chynnydd. I raddau helaeth mae'r dewis hwnnw yn nwylo'r sawl sydd yn ei siarad a'i chefnogi, ond gall llunwyr polisi hefyd gyfrannu'n helaeth at sefyllfa'r Gymraeg - mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol.

Daeth canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn sioc i garedigion yr iaith yn Sir Gâr ac mewn rhannau eraill o Gymru. Collwyd 6,148 o siaradwyr Cymraeg mewn degawd, sef lleihad o 6.4%, ac am y tro cyntaf yn ein hanes mae canran siaradwyr Cymraeg Sir Gâr wedi cwmpo dan yr hanner (43.9%). Dyma'r gostyngiad mwyaf a welwyd yn unrhyw ran o Gymru. Dros ganrif yn ôl, roedd 90% o boblogaeth y sir yn ddwyieithog, gyda chanran sylweddol ohonynt yn uniaith Gymraeg. Bellach mae'r siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif.

Mewn ymateb i hyn, sefydlodd Cyngor Sir Gâr weithgor arbennig i lunio strategaeth ac argymhellion ar sut i atal y dirywiad hwn ac atgyfnerthu'r iaith i'r dyfodol. Ffrwyth gwaith 'Gweithgor y Cyfrifiad' yw'r adroddiad hwn.

Mae nifer o resymau pam y mae'r Gymraeg wedi colli tir dros y blynyddoedd diwethaf. Un ohonynt yw'r newidiadau demograffig a welwyd ers y 70au. Mae'r ffaith bod tua 10,000 o bobl ifanc yn gadael y sir bob deng mlynedd i fynychu prifysgolion neu i chwilio am waith—dros eu hanner yn siaradwyr Cymraeg - yn golygu ein bod yn colli rhai o'n pobl ifanc mwyaf egniol a disglair. At hyn mae nifer cynyddol o fewnfudwyr, yn bennaf o Loegr, wedi dewis ymgartrefu yn Sir Gâr – cymaint â 45% o'r boblogaeth mewn rhai cymunedau gwledig. Mae'r symudoledd poblogaeth hwn wrth reswm wedi newid natur ieithyddol y cymunedau hyn yn ddirfawr.

Her arall yw'r ffaith mai ond hanner ein plant sy'n cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith yn llawn yn ein cyfundrefn addysg. Un o'r egwyddorion pwysicaf yn yr adroddiad yw y dylai pob disgybl gael y cyfle i fod yn gyflawn ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol fel eu bod yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau iaith yn y gymuned ac yn y gweithle. Mae gwerthu manteision economaidd a chymunedol dwyieithrwydd i rieni a disgyblion yn greiddiol i hyn a byddai cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Cyngor Sir dros y blynyddoedd nesaf yn dangos yn glir i bobl ifanc yn arbennig, gymaint yw gwerth sgiliau dwyieithog. Mae codi ymwybyddiaeth rhieni o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref hefyd yn allweddol i ddyfodol y Gymraeg ac yn cael ffocws amlwg yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Gweithgor dros gyfnod o flwyddyn wedi bod yn dadansoddi data, yn darllen adroddiadau ymchwil ac yn derbyn tystiolaeth gan arbenigwyr ar gynllunio iaith o bob rhan o Gymru. Mae'r aelodau, o bob grŵp gwleidyddol, wedi bod yn pwysu a mesur yn ofalus y swmp o wybodaeth werthfawr a gasglwyd yn ystod y broses ac mae'n braf nodi bod pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi cael cymeradwyaeth unfrydol ganddynt. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cydweithrediad parod ar hyd y ffordd ac i swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u gwaith diflino. Bu'n bleser cadeirio Gweithgor mor frwd ac ymroddgar.

Rydym yn cydnabod serch hynny, fod rhai o'r argymhellion yn rhai heriol iawn ond yn ein barn ni atebion radical sydd eu hangen wrth i'r Gymraeg wynebu sefyllfa o argyfwng. Sylweddolwn hefyd nad yw'r Cyngor Sir yn gallu cyflawni'r cyfan oll ar ei ben ei hun. Mae angen gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill, ym maes iechyd a gofal er enghraifft, mudiadau yn y sector gwirfoddol a phreifat ac wrth gwrs swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru er mwyn diogelu dyfodol yr iaith.

Credwn yn gwbl ddiffuant fodd bynnag, fod yr adroddiad hwn yn cynnig cyfle i'r Cyngor Sir i greu hanes. Byddai mabwysiadu'r adroddiad hwn yn arwydd bod y Cyngor o ddifrif ynglŷn ag adfer y Gymraeg, a gan fod gweddill Cymru'n edrych i gyfeiriad y sir am ymateb i'r golled ieithyddol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, bod yma strategaeth y byddai o ddiddordeb mawr i nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn rhan annatod o fywyd cymunedau Sir Gâr ers canrifoedd ond y tristwch yw ei bod hi bellach yn diflannu'n araf fel tywod mân rhwng ein bysedd. Mae angen felly i ni weithredu ar frys i atal y dirywiad a bod yn ddigon dewr i roi mesurau yn eu lle i sicrhau bod y gwaddol diwylliannol unigryw hwn yn cael ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Gwyddom fel Gweithgor fod yr her yn enfawr, ond mae'r wobwr pe llwyddir, yn fawr.

Cynghorydd Cefin Campbell

Cadeirydd Gweithgor y Cyfrifiad

1. Cefndir

1.1 Cefndir

1.1.1 Yn dilyn cyhoeddi Canlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr, cytunodd y Cyngor llawn i sefydlu Gweithgor Tasg a Gorffen i ymchwilio i'r ffactorau sydd wedi arwain at y dirywiad ac i lunio argymhellion er mwyn ymdrin â'r sefyllfa.

1.1.2 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r newidiadau demograffig yn Sir Gâr a amlygwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2011:

Sgiliau iaith Gymraeg	2001	2011	Gwahaniaeth
Preswylwyr dros 3 blwydd oed	167,373	177,642	10,269
Dim sgiliau yn y Gymraeg	60,933	74,355	13,422
Yn gallu deall Cymraeg llafar	17,494	20,716	3,222
Yn gallu siarad Cymraeg	84,196	78,048	-6,148
Yn gallu siarad ond ddim yn gallu Darllen nac Ysgrifennu Cymraeg	12,085	11,919	-166
Yn gallu Siarad a Darllen ond ddim yn gallu Ysgrifennu	6,507	7,436	929
Yn gallu Siarad, Darllen ac Ysgrifennu Cymraeg	65,210	58,321	-6,889
Cyfuniad arall o Sgiliau	5,144	4,895	-249

Tabl 1: Newidiadau demograffig (Cyfrifiad 2001 a 2011)

1.1.3 Er bod nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn gallu siarad yr iaith Gymraeg wedi gostwng 6.4% ers 2001, mae nifer y bobl sy'n gallu deall Cymraeg llafar wedi cynyddu 3,222 a mae nifer y bobl sy'n gallu siarad a darllen Cymraeg ond nid yn gallu ysgrifennu hefyd wedi cynyddu dros 900 o bobl.


Canlyniadau Cyfrifiad 2011 – Cymru

- 1.1.4 Yn genedlaethol, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad yn nifer a chyfran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Cymru. Roedd y gostyngiad hwn yn ganlyniad i newidiadau demograffig yn y boblogaeth (gan gynnwys llai o blant, mwy o oedolion hŷn, a cholled y carfannau hŷn gyda lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg), pobl yn mudo, a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng y ddau Gyfrifiad. Cafwyd gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg o 20.8 y cant yn 2001 i 19.0 y cant yn 2011. Er gwaethaf cynnydd ym maint y boblogaeth, roedd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011.
- 1.1.5 Roedd cynnydd sylweddol yng nghyfran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 18.8 y cant yn 2001 i 23.3 y cant yn 2011 (gan arwain at 3,300 yn fwy o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2011). Roedd cyfran y plant 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn 2011 (40.3 y cant) yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer 2001 (40.8 y cant). Roedd 41,300 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011 nag yn 2001, a gwelwyd gostyngiad o 18,900 yn nifer y plant a allai siarad Cymraeg, o 171,200 i 152,300.

Canlyniadau Cyfrifiad 2011 – Sir Gâr

- 1.1.6 Yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd y pwynt canran yn disgyn fwyaf yng Nghymru – o 50.3 y cant yn 2001 i 43.9 y cant yn 2011, sy'n golygu mai llai na hanner y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2011. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y sir i'r ganran ddisgyn dan yr hanner. Yn ogystal â Sir Gaerfyrddin, mae awdurdodau lleol eraill yng Ngorllewin Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot) i gyd wedi gweld gostyngiad o 2 neu ragor pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg. Gwelsant hefyd ostyngiadau yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Roedd mwy na deg y cant o bobl Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn yn gallu deall Cymraeg, ond nid oedd ganddynt unrhyw sgiliau pellach yn y Gymraeg (siarad, darllen neu ysgrifennu). Yn awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru yr oedd y gyfran isaf o bobl oedd ond yn gallu deall Cymraeg.
- 1.1.7 Dengys Tabl 2 isod fod Sir Gaerfyrddin wedi gweld cynnydd graddol yn ei phoblogaeth ers yr 1980au ond ar yr un adeg bod niferoedd y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn gostwng. Bu gostyngiad o Gyfrifiad i Gyfrifiad yn Sir Gâr, ond am y tro cyntaf yn 2011, dangosodd y canlyniadau bod canran siaradwyr Cymraeg y sir wedi gostwng o dan yr hanner (43.9%). Mae cyfraddau geni a marw'r sir wedi aros yn weddol statig oddi ar ganol yr ugeinfed ganrif felly mae'n debyg mai mewnfudo yw'r prif reswm am y cynnydd net yn y boblogaeth.

1.1.8 Patrwm arwyddocaol arall yng nghyd-destun y boblogaeth yw mai parhau i gynyddu mae'r boblogaeth hŷn yn y sir ac erbyn 2011 roedd 21.5% o'r boblogaeth dros 65 oed gyda'r rhagolygon i'r dyfodol yn awgrymu mai codi eto bydd y ffigwr hwn. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r canfyddiad bod pobl ifanc yn gadael y sir wedi iddynt orffen eu haddysg statudol.



Tabl 2: Niferoedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin a niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin (Cyfrifiad 2011)

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan *Dr Dylan Phillips*


1.1.9 Dengys Tabl 3 isod ddisbarthiad a niferoedd ar draws y sir, a gwelir mai yn y trefi y ceir y niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg (Caerfyrddin, 5,123; Llanelli, 5,732; Rhydaman a'r cyffiniau, 5,717). Mae'n allweddol ein bod yn edrych ar y niferoedd law yn llaw â'r canrannau, gan y byddai'r ganran yn dangos mai lleiafrif fyddai'r siaradwyr Cymraeg yn y trefi.

1.1.10 Dylid nodi nad oes yr un ward yn Sir Gâr bellach lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Gweler Tabl 4 isod am fanylion o ran y canrannau. Yn ystod y ddeng mlynedd olaf, mae wardiau Pontyberem, Llannon, Gorslas a Chwarter Bach wedi gostwng islaw'r ganran hon. Mae'r patrwm o ostyngiad i'w weld ar draws y sir, ond


ymddengys mai yn Nyffryn Aman y gwelwyd y gostyngiad pennaf rhwng 2001 a 2011.

Dyma'r prif ystadegau

- Tref Rhydaman (-12.2%)
- Tycroes (-11.1%)
- Garnant (-11.0%)
- Betws (-9.9%)




Tabl 3: Dosbarthiad a niferoedd sy'n siarad Cymraeg fesul Ward (Cyfrifiad 2011)
Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan *Dr Dylan Phillips*



Tabl 4: Canran y siaradwyr Cymraeg fesul ward (Cyfrifiad 2011)
Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan *Dr Dylan Phillips*

1.1.11 Dengys Tabl 5 isod y ganran o drigolion Sir Gaerfyrddin sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl oed rhwng 1921 a 2011. Erbyn hyn gwelir y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ymhlith y boblogaeth oed ysgol gyda'r ganran yn y boblogaeth hŷn yn gostwng yn sylweddol bob degawd. Mae'r tabl yn dangos bod y ganran yn 2011 yn is na 2001 ar gyfer pob grŵp oed arall ar ôl cyfnod ysgol. Gwelir y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn y grŵp oed 25-44. Mae hyn yn arwyddocaol gan mai dyma'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fagu plant.



Tabl 5 : Gallu leithyddol yn ôl Oed, Sir Gaerfyrddin 1921-2011

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan *Dr Dylan Phillips*

1.2 Cyd-destun polisi lleol a chenedlaethol

1.2.1 Derbyniodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011 gan roi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn gosod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg ymhob agwedd o fywyd.

1.2.2 Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan y Mesur a phenodwyd Meri Huws i'r swydd ym mis Ebrill 2012. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith ac i hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2.3 Yn ogystal, mae darpariaeth yn y Mesur o ran trefn Cynlluniau Iaith Gymraeg a gytunwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bwriad y Safonau Iaith¹ arfaethedig yw symleiddio'r broses o osod dyletswyddau ar gyrff ac i gyflwyno mwy o gysondeb ar draws sectorau ac ardaloedd. Cynhelir Ymchwiliadau Safonau ar Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru o fis Ionawr hyd at fis Ebrill 2014. Bydd y Safonau Iaith yn disodli'r Cynlluniau Iaith cyfredol, ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff a enwir drwy Fesur y Gymraeg, mewn pum maes, sef; cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredu, hyrwyddo'r Gymraeg a chadw cofnodion.

1.2.4 Cyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 'Iaith Fyw: Iaith Byw'² gan Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2012. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth sy'n gweithredu er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y weledigaeth a amlinellwyd yn 'Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog' a gyhoeddwyd yn 2003.

1.2.5 Bydd y Llywodraeth yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid a fydd yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau y caiff y weledigaeth ei gwireddu. I'r perwyl hwn, chwe nod y Llywodraeth yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Gymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

1.2.6 Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg'³ Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol wrth greu siaradwyr Gymraeg y dyfodol - ar y cyd ag annog y defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd.

¹ Gwefan Comisiynydd y Gymraeg:

http://www.comisiynyddygyymraeg.org/Cymraeg/Cyfraith/mesurygyymraeg2011/safonau/Pages/newidogynllun_iauiathisafonau.aspx

² Gwefan Llywodraeth Cymru: <http://cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/policy/living/?lang=cy>

³ Gwefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy>

1.2.7 Yn ystod 2012 a 2013, comisiynodd Llywodraeth Cymru nifer o adroddiadau ymchwil cenedlaethol fel rhan o drafodaethau am y Gymraeg. Yn naturiol, ystyriwyd cynnwys ac argymhellion yr ymchwil cenedlaethol hynny fel rhan o waith Gweithgor y Cyfrifiad a bydd cyfle i drafod yr argymhellion hynny sy'n lleol i ni yn Sir Gâr gydag ystod o bartneriaid wrth gynllunio at y dyfodol.

1.2.8 Mae'r adolygiadau cenedlaethol hynny yn cynnwys:

- Iaith Fyw: Dweud eich Dweud – trosolwg o drafodaethau'r Gynhadledd Fawr
- Un iaith i Bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
- Codi Golygon: Adolygiad o Gymraeg i Oedolion
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol
- Cymunedau Cymraeg: Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith
- Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe
- Y Gymraeg a datblygu economaidd

Gellir chwilio am yr adolygiadau cenedlaethol drwy wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dull o weithredu

2.1.1 Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011, cytunwyd yn unfrydol yng nghyfarfod llawn Cyngor Sir Gâr ym mis Rhagfyr 2012, y dylid sefydlu Gweithgor trawsbleidiol i edrych ar sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Cytunwyd ar ddull Gorchwyl a Gorffen o weithredu ac ar brotocol gweinyddu yn unol â'r drefn hynny. Y tîm Polisi a Phartneriaethau fyddai'n cefnogi gwaith y Gweithgor.

2.1.2 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gweithgor ar 18 Ebrill 2013 ac yn y cyfarfod hwnnw cytunwyd ar gylch gorchwyl y grŵp (gweler Atodiad 1) ynghyd â blaenoriaethau i'w hastudio. Cytunwyd ar y meysydd canlynol:

- Cynllunio (tai fforddiadwy a'r Gymraeg o fewn datblygu cynaliadwy)
- Addysg (meithrin, statudol, bellach, uwch)
- Iaith ac Economi
- Gweithleoedd cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth y Cyngor
- Effaith sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg megis y Mentrau Iaith
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir (Cymraeg i Oedolion a defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol)
- Trosglwyddiad iaith yn y teulu
- Marchnata'r iaith

Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a Mawrth 2014, cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd er mwyn trafod y meysydd uchod.

2.1.3 Yn y cyfarfod cyntaf, enwebwyd y Cynghorydd Cefin Campbell yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Calum Higgins yn Is-gadeirydd.

2.1.4 Cytunodd yr Aelodau i wahodd ystod o sefydliadau ac unigolion i gyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor ac er mwyn adeiladu ar y wybodaeth leol ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Gweler Atodiad 3 am fanylion pellach ynghylch y cyflwyniadau.

2.1.5 Cytunodd yr aelodau i wahodd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg drwy'r papurau lleol a Newyddion Sir Gâr ynghyd â'r cyfryngau cymdeithasol. Gofynnwyd i'r cyhoedd i gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd blaenoriaeth ac i gynnig eu profiadau personol o ran y Gymraeg. Gosodwyd dyddiad cau o 31 Hydref 2013 a derbyniwyd 12 o ymatebion. Gellir gweld rhestr o'r ymatebion yn Atodiad 4.


2.1.6 Penderfynodd y Grŵp i gomisiynu dau ddarn o waith ymchwil penodol. Comisiynwyd Dr Dylan Phillips i baratoi adroddiad ystadegol manwl ar sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gâr er mwyn cael dogfen a fyddai ar gael, nid yn unig at waith y Gweithgor ond fel sail tystiolaeth ar gyfer pob un o bartneriaid y Cyngor wrth gynllunio gwasanaethau a gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir. Cytunwyd hefyd i gomisiynu Prifysgol y Drindod Dewi Sant i wneud darn o waith ymchwil i edrych ar Gynllunio a'r iaith Gymraeg, gan edrych yn benodol ar ystadau tai yng Nghaerfyrddin, Cross Hands a Llandeilo. Diolch i Dr Dylan Phillips a swyddogion Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am eu gwaith ymchwil trwyadl. Cyfeirir at y ddau ddarn o ymchwil yn yr adroddiad hwn.

3. Canfyddiadau ac Argymhellion

3.1 Addysg

- 3.1.1 Mae'r sector addysg yn faes allweddol wrth ystyried dyfodol yr iaith Gymraeg ac yn faes mae'r Cyngor Sir yn medru dylanwadu arno'n sylweddol. Mae'n rhaid cydnabod fodd bynnag, nad yw cynhyrchu siaradwyr Cymraeg trwy'r gyfundrefn addysg bob tro yn arwain at barhad y Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau ac mai rhan o *jig-so* ehangach yw addysg yng nghyd-destun yr iaith.
- 3.1.2 Mae'r gyfundrefn addysg serch hynny yn gosod sylfaen allweddol i'n pobl ifanc ni o safbwynt yr iaith, o'r cyfnod cyn ysgol (trwy raglenni fel Twf, Dechrau'n Deg a Chychwyn Cadarn), i'r cyfnod meithrin ac ymlaen i'r sector cynradd, uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r dilyniant cyfrwng Cymraeg hwn rhwng y sectorau yn allweddol ac mae'r Gweithgor yn cydnabod yr angen i sicrhau gwell dilyniant drwy ddarparu'r lleol megis Mudiad Meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- 3.1.3 Dengys data Cyfrifiad 2011 (Tabl 6 isod) mai yn y grŵp oedran 3-14 y gwelir y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir gyda 60 y cant yn y grwpiau oedran 5-9 a 10-14 mlwydd oed yn medru'r Gymraeg. Serch hynny, mae'n rhaid cydnabod bod lle i gynyddu'r ganran hon ymhellach eto drwy sicrhau addysg ddwyieithog gyflawn i bobl ifanc ein sir. Gwelir yn Nhabl 6 hefyd fel y mae cwmp yng nghanran siaradwyr Cymraeg yn digwydd bob degawd yn y grŵp oedran 15-24.
- 3.1.4 Serch hynny, yn anffodus nid yw'n ymddangos fod yr ymchwydd canrannol a brofir yn y grŵp oed ysgol yn cael ei gynnal tu hwnt i ddyddiau ysgol. Gwelir cwmp trawiadol yn nifer y siaradwyr Cymraeg wrth symud ymlaen i'r categori 15-24 oed gydag ond 47.6 y cant yn y grŵp oed hwn yn medru'r Gymraeg. Mae hyn yn mynd law yn llaw gyda chwmp yn nifer y boblogaeth yn y grŵp oed hwn. Yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd nifer y trigolion 3-15 oed yn y sir yn rhifo 28,000 ond erbyn Cyfrifiad 2011 roedd trigolion 16-24 oed y sir yn rhifo ychydig dros 19,500, cwmp o 9,500 yn y boblogaeth. Mae'n amlwg, felly, fod nifer sylweddol o'n pobl ifanc yn gadael Sir Gaerfyrddin ar ôl gorffen yn yr ysgol er mwyn naill ai mynd i'r brifysgol neu er mwyn chwilio am waith, ac, o ystyried y ganran uwch o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oed 3-15, mae'n debygol bod canran arwyddocaol o'r rheini yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r dirywiad hwn yng nghanran siaradwyr Cymraeg 15-24 oed wedi bod yn batrwm cyson dros nifer o ddegawdau.

- 3.1.5 Mae lleoliad siaradwyr Cymraeg oed ysgol ar draws y sir hefyd yn nodweddiadol. Gwelir mai yn ardal Llanelli y ceir y ganran isaf o blant 3-15 oed a oedd yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ymddengys bod polisi addysg y Cyngor yn llwyddo'n dda mewn sawl man ar draws y sir megis Cwm Gwendraeth (Penygroes: 83.6%; Pontyberem: 82.5%; Llanddarog: 81.6%; a Gorslas: 81.5%), yr ardal i'r dwyrain o dref Caerfyrddin (Llanegwad: 80.9%), Llangeler yng ngogledd y sir (80.9%), Trelech yn y gorllewin (80.2%) a de Dinefwr (Cwarter Bach: 85.2%; a Llangadog: 83.6%).
- 3.1.6 Mae'r angen i gynllunio datblygiad pellach darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn ein hardaloedd mwy poblog e.e. trefi Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman yn allweddol felly os ydym am gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn y sir.



Tabl 6: Siaradwyr Cymraeg yn ôl oed, 1991-2011 (Cyfrifiad 2011)

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan *Dr Dylan Phillips*

- 3.1.7 Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am baratoi 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg'⁴ sy'n gosod targedau sirol yn erbyn saith deilliant cenedlaethol i gynyddu addysg

⁴ Gwefan Cyngor Sir Gâr: <http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/addysg/Documents/WESP%202012-15%20Cymraeg.pdf>

cyfrwng Cymraeg a amlinellwyd yn 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'⁵, Llywodraeth Cymru.

3.1.8 Mae holl ysgolion cynradd ac uwchradd Sir Gaerfyrddin wedi cael eu gosod mewn categori iaith yn ôl diffiniadau Llywodraeth Cymru a osodwyd yn ei dogfen ganllaw 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2007)⁶. Mae nifer a chanran yr ysgolion cynradd ac uwchradd ym mhob categori fel a ganlyn (Chwefror 2014):

Sector Gynradd

- Cyfrwng Cymraeg: 58 ysgol (56%);
- Dwy Ffrwd: 13 ysgol (12.5%);
- Trawsnewidiol (cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg): 3 ysgol (3%);
- Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg hefyd: 6 (6%);
- Cyfrwng Saesneg yn bennaf: 24 (23%).

Sector Uwchradd

- Dwyieithog Categori 2A - o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl): 3 ysgol (25%);
- Dwyieithog Categori 2B - o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd – 2 ysgol (17%);
- Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg - 20-49% o'r pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd: 2 ysgol (17%)
- Cyfrwng Saesneg yn bennaf - lle y gellir dewis dysgu 1 neu 2 o bynciau, o bosibl, drwy gyfrwng y Gymraeg: 5 ysgol (42%).

Ceir rhestr lawn o ysgolion y sir a'u categori ynghlwm fel Atodiad 2.

⁵ Gwefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy>

⁶ Gwefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/definingschools?lang=cy>

- 3.1.9 Er mwyn cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir mae'n gwbl allweddol ein bod yn symud ein hysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd y continwwm iaith a amlinellir yn y diffiniadau cenedlaethol. Yn ogystal â'r cyfleoedd ychwanegol a gynigir drwy hyn o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg rydym hefyd yn cydnabod bod symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith yn fater cymhleth a heriol ac mae'r berthynas rhwng y Cyngor Sir a chyrrff llywodraethol ysgolion unigol yn gwbl allweddol yn hynny o beth.
- 3.1.10 Er mwyn hwyluso'r broses o symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith bydd yn holl bwysig i gynnal ymgyrch farchnata a chodi ymwybyddiaeth o fanteision addysg ddwyieithog ymhlith disgyblion, rhieni, athrawon a llywodraethwyr ysgolion y sir.
- 3.1.11 Yn ogystal â symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith mae'n gwbl allweddol sicrhau dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg rhwng y sector cynradd ac uwchradd ac yn enwedig rhwng y cyfnodau allweddol dysgu penodol. Ymddengys fod 55.6% o ddisgyblion cynradd y sir yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ond bod hyn yn cwmpo i 35.4% wrth symud i'r sector uwchradd. Mae hwn wedi bod yn batrwm cyson dros nifer o flynyddoedd. Mae'r Cyngor Sir eisoes wedi cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r cwmp sylweddol hwn ac yn ei 'Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' mae wedi gosod disgwyliad pendant o ran sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector cynradd i'r uwchradd. Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal er mwyn monitro cyrhaeddiad yn erbyn y disgwyliad hwn.
- 3.1.12 Er mwyn cefnogi'r ymgais i gynyddu ffigyrau dilyniant rhwng y sector cynradd ac uwchradd mae angen sicrhau bod y cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i'r sectorau addysg bellach ac uwch. Mae Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu'r ddarpariaeth hon o fewn y sectorau hyn yn y sir. Ceir cynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu hasesu yn ddwyieithog o fewn unedau dwyieithog Coleg Sir Gâr a hynny mewn nifer o gysiau gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol. Mae'n darged clir gan y Coleg i gynyddu nifer yr unedau sydd ar gael i'r myfyrwyr yn Gymraeg. Mae gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i is-raddedigion sy'n cynnwys graddau ym meysydd Addysg a Hyfforddiant, Diwydiannau Creadigol, Dyniaethau, Busnes a Chwaraeon a Hamdden. Lleolir prif swyddfa y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Nghaerfyrddin sydd â'r nod o gynyddu, datblygu ac ehangu cyfleoedd astudio drwy'r Gymraeg mewn prifysgolion ar draws Cymru.
- 3.1.13 Yn ogystal a sicrhau dilyniant o ran cyfleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn addysg statudol mae hefyd yn bwysig i ystyried cyfleoedd cymunedol i ddysgu'r Gymraeg. Mae Cyngor Sir Gâr ynghyd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe yn darparu amrediad o gysiau cymunedol Cymraeg i Oedolion ar draws Sir

Gaerfyrddin. Ceir cyrsiau ar gyfer dysgu siarad Cymraeg gyda'r teulu, a chyrsiau sy'n amrywio o fod yn addas i ddechreuwr hyd at lefel hyfedr.

3.1.14 O ganlyniad i ddatblygiad a thwf parhaus poblogaeth Sir Gaerfyrddin mae hwyrddyfodiaid i'r sector addysg cynradd wedi bod yn ffactor a her allweddol ar hyd y blynyddoedd diweddar. Mae'r Cyngor Sir eisoes wedi cymryd camau i ailstrwythuro ei ddarpariaeth ar gyfer cefnogi hwyrddyfodiaid o fewn y sector addysg. Serch hynny, mae'n amlwg y gallwn ddysgu o brofiadau Cyngorau Sir Gwynedd a Cheredigion yn enwedig o safbwynt sefydlu canolfannau i gefnogi hwyrddyfodiaid trwy sefydlu system lle mae'r disgyblion yn treulio eu tymor cyntaf gyfan (hyd at 10 wythnos) mewn canolfan iaith ganolog er mwyn medru sgiliau Cymraeg digonol i integreiddio'n naturiol i'r ysgol leol cyfrwng Cymraeg.

3.1.15 Mae'r argymhellion addysg yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pob plentyn yn Sir Gâr gael y cyfle i adael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. I blant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yr unig fethodoleg sy'n cael ei chydabod ar draws y byd fel yr un mwyaf llwyddiannus i sicrhau dwyieithrwydd cyflawn yw'r dull trochi. Gan fod Estyn ac adroddiadau gan Lywodraeth Cymru ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith yn nodi bod diffygion sylweddol yn y maes, y dull trochi sy'n cael ei argymhell yn yr adroddiad hwn ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ein holl ysgolion cynradd. Mae'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn y sector uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen hwn.

NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

ARGYMHELLION:

Addysg Cyn-Ysgol

1. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o Sir Gâr.

Y Sector Cynradd

2. Bod y Cyngor Sir yn paratoi cynllun gwaith ac amserlen bendant, mewn cydweithrediad â chyrrff llywodraethu ysgolion, er mwyn symud pob ysgol gynradd ar hyd continwwm iaith. Bydd angen datblygu strategaethau ar gyfer yr amrywiol categorïau ac ardaloedd daearyddol;

3. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion trawsnewidiol Sir Gâr (sef ysgolion cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg) er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg;
4. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg;
5. Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar yr egwyddor y dylai pob ysgol gynradd Saesneg dros gyfnod o amser gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg fel man cychwyn gan ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (CA2);
6. Bod y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o adnabod ysgolion cyfrwng Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn weddol o fuan gyda'r nod yn CA2 i gynnig dewis rhwng ffrwd Gymraeg neu ffrwd ddwyieithog (25-50% cyfrwng Cymraeg);
7. Bod y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth fanwl i fodel presnnol canolfannau iaith/hwyrddyfodiaid Sir Gâr yn y sector cynradd ac i ddatblygu'r ddarpariaeth ar sail model Cynghorau Gwynedd a Cheredigion;
8. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion Sir Gaerfyrddin;
9. Bod y Cyngor Sir yn ailedrych a sicrhau bod ysgolion cynradd Cymraeg yn rhan o deulu ysgol uwchradd sy'n gallu darparu continwwm ieithyddol addas o'r sector cynradd ymlaen i CA3 a CA4 a chynnal gweithgareddau pontio sy'n adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo;
10. Bod y Cyngor Sir yn cynnwys disgwyliadau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o gytundeb gydag ysgolion, ochr yn ochr â disgwyliadau o ran disgyblaeth, cyrhaeddiad a phresenoldeb;
11. Bod y Cyngor Sir, pe gwireddir yr argymhellion uchod, yn ymwybodol o'r angen i gynllunio ar gyfer twf mewn addysg Gymraeg yn y sector uwchradd.

Ysgolion Uwchradd

12. Bod y Cyngor Sir yn disgwyl i ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen ieithyddol a osodwyd gan yr ysgolion cynradd Cymraeg drwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel cyfrwng dysgu hyd at CA4;
13. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg (neu ddwyieithog), gyda hyfforddiant priodol lle bo angen, er

mwyn cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol:

14. Bod y Cyngor Sir yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynllun ail-gyfle yn y cyfnod pontio rhwng y sector cynradd a'r uwchradd gan fabwysiadu'r Cynllun Trochi sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ledled Cymru;
15. Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser a rhoi arweiniad i sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;
16. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd.

Marchnata Addysg Gymraeg

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;
18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

Cyffredinol

19. Bod y Cyngor Sir yn cynnal asesiad o'r galw am addysg Gymraeg mewn ardaloedd lle ystyrir bod angen;
20. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phob corff Llywodraethol i gynnal awdit sgiliau iaith er mwyn ystyried anghenion ieithyddol y gweithlu ar gyfer gallu symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith.
21. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth ac adnoddau priodol i ddatblygu ac arwain strategaeth i hyrwyddo ac ehangu addysg Gymraeg yn Sir Gâr.

3.2 Cynllunio a Thai

- 3.2.1 Mae'r maes cynllunio yn un dyrys tu hwnt gyda nifer o ffactorau ac ystyriaethau gwahanol yn dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol a lleol. Mae'r iaith Gymraeg yn un o'r ffactorau allweddol hynny yn Sir Gaerfyrddin ac yn plethu mewn i nifer o ystyriaethau wrth lunio polisi cynllunio lleol.
- 3.2.2 Mae'r gwaith o lunio a gweithredu polisiau a chynlluniau lleol yn Sir Gaerfyrddin yn ddibynnol ar gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru (sy'n gosod strategaeth a disgwyliadau cenedlaethol), yr Arolygaeth Gynllunio (sy'n archwilio a gwirio pa un ai ydy'r cynlluniau lleol yn gadarn), a Chyngor Sir Gâr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau lleol). Mae'r berthynas rhwng yr asiantaethau hyn a dealltwriaeth o anghenion lleol yn gwbl allweddol os am lunio ymagwedd gynllunio effeithiol.
- 3.2.3 Nodwyd ynghynt yn yr adroddiad hwn fod poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu'n raddol ers yr 1980au ac mai mewnfudo i'r sir yw un o'r rhesymau pennaf am hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod gofynion ar awdurdodau cynllunio lleol i baratoi cynlluniau i ddarparu am dwf pellach yn y boblogaeth. Ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol sy'n mynd trwy'r broses archwilio ar hyn o bryd mae'r Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer twf pellach o dros 15,000 o anheddau ychwanegol yn y sir. Mae'r ffigwr hwn wedi ei osod ar sail dadansoddiad lleol o ragamcanion Llywodraeth Cymru o ran twf poblogaeth ac anheddau. Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir amlinellu sut y bydd yn diwallu'r nod hwn.
- 3.2.4 Mae'n bwysig cydnabod bod twf yn y boblogaeth yn bwysig i hyfywedd ein cymunedau gan fod datblygiad economaidd yn mynd law yn llaw â thwf yn y boblogaeth. Serch hynny, yr hyn sy'n gwbl allweddol yw bod effaith datblygu o fewn ein cymunedau yn cael ei ystyried mewn modd priodol a bod mesurau lliniaru addas yn cael eu gosod er mwyn diogelu ein cymunedau traddodiadol. Mae hwn yn fater mae pob un o'r awdurdodau cynllunio yn yr ardaloedd traddodiadol Cymreig yn ei wynebu.
- 3.2.5 Nid yw'r fethodoleg a chanllawiau presennol (mewn perthynas â'r Gymraeg) i awdurdodau cynllunio lleol ar asesu effaith datblygu a gosod mesurau lliniaru yn ddigonol ac mae angen llunio methodoleg safonol genedlaethol i gefnogi awdurdodau lleol.
- 3.2.6 Mae'r cyswllt rhwng cynllunio, adeiladu tai a'r iaith yn gymhleth tu hwnt ac nid yw adeiladu ystadau newydd o dai bob amser yn arwain at gwmp yn lefelau siaradwyr Cymraeg e.e. fel y nodwyd ynghynt yn ardal Rhydaman y gwelwyd y cwmp mwyaf yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin yn y ddeng mlynedd ddiwethaf ond yn yr un cyfnod ychydig iawn o ddatblygu tai sydd wedi digwydd. O ganlyniad fe wnaeth y Gweithgor benderfynu cynnal astudiaeth o effaith bosibl datblygiadau tai

newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn Sir Gaerfyrddin gan ganolbwyntio ar dair ystâd o dai newydd yng Nghaerfyrddin, Cross Hands a Llandeilo. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ystod mis Ionawr 2014. Er mai astudiaeth ar raddfa fach oedd hon (anfonwyd holiadur at bob un o'r 281 o dai gyda 160, sef 56.9% yn ymateb) mae'r canfyddiadau yn ddiddorol. Gwelir fod 68.6% (103 o'r 150 a wnaeth ymateb) wedi symud i'r eiddo presenol o aelwyd arall yn Sir Gaerfyrddin gyda 14% arall yn nodi eu bod wedi symud o ardal yn Ne-Orllewin Cymru. 6% yn unig a nododd eu bod wedi symud o ran arall o'r Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru. Ceir awgrym cryf felly bod yr ystadau tai yn diwallu anghenion y boblogaeth leol yn bennaf. Yn ogystal gwelir mai'r Gymraeg yw'r brif iaith yn 28% o'r aelwydydd (41 o 146) gyda'r Gymraeg hefyd yn cael ei siarad mewn 23% arall. Mae'r astudiaeth hon yn cynnig trosolwg cryno a bydd y canfyddiadau yn cael eu rhannu gydag adrannau priodol o'r cyngor gydag ystyriaeth i gynnal ymchwil pellach.

3.2.7 Yn ogystal â datblygiadau tai newydd mae defnydd priodol o'r stoc dai presennol yn allweddol. Mae'r Cyngor Sir yn rheoli stoc dai sylweddol o fewn y sir (rhyw 9,000 o dai) ac ar hyn o bryd yn adeiladu byngalos cymdeithasol newydd. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn gweithio'n ddiwyd i gynnal perthynas agos gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat yn y sir er mwyn diwallu'r gofyn am dai yn briodol. Mae'n bwysig i adeiladu eto ar y berthynas hon ac i ymledu'r arfer dda sydd wedi ei sefydlu o ran dychwelyd tai gwag at ddefnydd lleol.

NOD: I sicrhau ystyriaeth ac ymwybyddiaeth lawn o effaith cynllunio ar yr iaith Gymraeg (yn lleol ac yn genedlaethol) gan sicrhau gosod a gweithredu mesurau lliniaru effeithiol mewn cydweithrediad â'r cymunedau lleol.

ARGYMHELLION:

Argymhellion i Lywodraeth Cymru

22. Bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth faterol (material consideration) yn rhan o'r Bil Cynllunio a'r Bil Tai arfaethedig a sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei integreiddio i'r broses o ymgysylltu â'r gymuned ynghylch materion cynllunio. Bod y Cyngor Sir yn gwneud trefniadau penodol i weithredu hyn.
23. Bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r canllawiau i awdurdodau cynllunio yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 o ran gofynion i fesur effaith cynllunio ar yr iaith Gymraeg yn enwedig yn y cadarnleoedd traddodiadol Cymraeg.
24. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau pellach i awdurdodau cynllunio ar y mesurau lliniaru y gellir eu defnyddio i leihau effaith datblygiadau ar yr iaith.

25. Bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg, awdurdodau cynllunio a'r Arolygaeth Cynllunio, yn datblygu methodoleg genedlaethol ar gyfer mesur effaith cynllunio ar yr iaith Gymraeg ac yn gosod canllawiau pendant ar weithrediad y broses asesu effaith.
26. Bod Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth bellach i'r Arolygaeth Cynllunio, am effaith cynllunio ar ddiwylliant cymunedau penodol ac ar yr iaith Gymraeg yn enwedig yn y cadarnleoedd traddodiadol Gymraeg.
27. Bod Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth yn ail ystyried y broses a ddefnyddir i ragweld y nifer o dai sydd eu hangen ar bob awdurdod er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion cymunedol penodol.

Argymhellion i'r Cyngor Sir

28. Bod y Cyngor Sir yn datblygu ei bolisi tai fforddiadwy ymhellach gan sicrhau argaeledd uwch o fewn datblygiadau tai.
29. Bod y Cyngor Sir yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r nifer o dai gwag o fewn y sir er mwyn eu dychwelyd at ddefnydd lleol.
30. Bod y Cyngor Sir yn gosod trothwy uwch am dai fforddiadwy ar gyfer datblygiadau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir.
31. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata i godi ymwybyddiaeth am y Gofrestr Dewis Tai.
32. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Mentrau Iaith Lleol, gwerthwyr tai a system 'cofrestru treth' y Cyngor Sir i ddatblygu pecyn 'Croeso i Sir Gâr' ar gyfer trigolion newydd a datblygu rhaglen ddisbarthu trwy weithio ar y cyd gyda grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned (*hefyd wedi ei gynnwys yn yr adran Marchnata'r Iaith*).

3.3 Gweithleoedd Dwyieithog

3.3.1 Y Cyngor Sir yw un o gyflogwr mwyaf Sir Gaerfyrddin gyda dros 9,000 o staff a 74 o aelodau etholedig. Mae gan y Cyngor rôl ganolog o ran cynnig arweiniad a gosod esiampl i'w drigolion a phartneriaid mewn nifer o feysydd amrywiol iawn, ac yn ganolog i hyn oll mae'n cynnig arweiniad cadarn o ran dyfodol yr iaith Gymraeg yn y sir. Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig ystyried rôl y Cyngor fel darparwr gwasanaethau i gymuned ddwyieithog ond hefyd fel cyflogwr arwyddocaol o fewn poblogaeth ddwyieithog.

3.3.2 Er gwaethaf canlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011 o ran yr iaith Gymraeg, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod y sir gyda'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda rhyw 78,000 o siaradwyr Cymraeg (43.9% o'i phoblogaeth) sy'n ffactor allweddol o ystyried rôl y Cyngor fel darparwr gwasanaethau a chyflogwr. Mae gan Sir Gaerfyrddin hanes a thraddodiad unigryw o safbwynt yr iaith Gymraeg ac mae'n gwbl allweddol fod swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor Sir yn cydnabod, ond hefyd yn dathlu hyn, wrth ystyried gwasanaethau, cynlluniau a datblygiadau i'r dyfodol.

3.3.3 Ar hyd y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor Sir wedi datblygu a gosod mewn lle nifer o weithdrefnau polisi a gwasanaethau uniongyrchol er mwyn, yn bennaf, alluogi'r cyhoedd i gysylltu ac ymwneud â'r Cyngor yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn gosod disgwyliadau cadarn o ran ymwneud y Cyngor â'r cyhoedd ac mae'r Ganolfan Gyswllt a'r Canolfannau Gwasanaeth Cwsmer yn enghreifftiau cadarnhaol iawn o hyn yn ymarferol lle mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth dwyieithog naturiol.

3.3.4 Serch hynny, er mwyn ymateb i'r cwmp sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir, mae angen i'r Cyngor Sir fabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol a gosod disgwyliadau uwch i'w hun fel corff sy'n gallu arwain y ffordd o ran codi statws a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sir. Dros gyfnod o amser bydd hyn yn arwain at ddatblygu ethos a diwylliant y Cyngor fel corff naturiol dwyieithog a fydd yn medru esblygu'n hyderus i weinyddu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

3.3.5 Yn hynny o beth, mae amseriad cyhoeddi'r 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg'⁷ gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014 yn fuddiol gan y bydd angen i'r Cyngor ystyried ei weithdrefnau er mwyn cydymffurfio â gofynion pum safon ganolog:

- Cyflenwi gwasanaethau;
- Llunio polisi;

⁷ Gwefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/8334815/?lang=cy>

- Gweithredu;
- Hybu;
- Cadw cofnodion.

Bydd ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg yn gorffen ym mis Ebrill 2014 a bydd adroddiad ar yr ymchwiliad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2014. Mae'n debyg y bydd yn argymhell targedau ar gyfer y Cyngor Sir a disgwylir i'r Cyngor baratoi strategaethau cydymffurfio ar gyfer pob un o'r pum safon erbyn 2015. Bydd y strategaethau cydymffurfio yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Sir.

3.3.6 Mae'r Cyngor Sir mewn sefyllfa gymharol ffodus o ran sgiliau iaith y gweithlu presennol. Yn ôl awdit o sgiliau iaith staff y Cyngor sy'n gweithio mewn swyddfeydd (rhyw 2,500 o staff) a gynhaliwyd yn 2011 roedd 72.7% yn meddu ar sgiliau siarad Cymraeg tra bod 54.4% yn meddu ar sgiliau ysgrifennu Cymraeg. Er mwyn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon mae'n bwysig fod y Cyngor Sir yn cydnabod y Gymraeg fel sgil yn y gweithle ac yn magu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg trwy eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn medru gweithio'n naturiol ddwyieithog ac i annog a chefnogi staff sydd heb sgiliau yn y Gymraeg i ddysgu dros gyfnod o amser.

3.3.7 Yn ogystal â chefnogi staff presennol y Cyngor mae'n amserol i ail-edrych ar bolisiau recriwtio a gweithlu'r Cyngor er mwyn cefnogi'r nod o ddatblygu fel corff dwyieithog. Cyhoeddwyd Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor Sir yn 2008 a bydd angen adolygu'r Strategaeth yn sgîl cyflwyno'r Safonau Iaith newydd.

3.3.8 Bydd gosod y Gymraeg fel sgil allweddol yn y gweithle hefyd yn cyfleu neges gadarnhaol i bobl ifanc y sir o ran budd addysg cyfrwng Cymraeg. Yn hytrach na gweld y Gymraeg fel iaith yr ystafell ddosbarth a'r ysgol bydd modd gweld y Gymraeg ar waith fel sgil yn y gweithle a fydd yn atgyfnerthu eu datblygiad proffesiynol.

3.3.9 Mae rôl allweddol gan aelodau etholedig y Cyngor i'w chwarae yn hyn hefyd. O'r 74 cynghorydd sir sy'n aelodau o Gyngor Sir Gâr mae 51 (68.9%) yn medru siarad Cymraeg ac mae'n bwysig eu bod nhw'n gosod esiampl trwy ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd cymunedol ac yn eu hymwneud cyffredinol â'r cyhoedd yn Sir Gâr.

3.3.10 O ran gweithleoedd dwyieithog, mae angen i'r Cyngor Sir ddangos arweiniad cadarn er mwyn dwyieithogi'r sefydliad dros gyfnod o amser, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddatblygu a chefnogi'r gweithlu i fedru gweithio'n naturiol ddwyieithog. Fel blaenoriaeth dylid canolbwyntio ar yr adrannau a gwasanaethau sy'n cynnig gwasanaeth rheng-flaen i gwsmeriaid.

NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle a dwyieithogi ymhellach gweinyddiaeth fewnol y Cyngor gyda'r nod o weinyddu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gydag amser

ARGYMHELLION:

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.
34. Bod y Cyngor Sir yn adolygu a diweddarau polisiau recriwtio a gweithlu'r Cyngor er mwyn gosod y Gymraeg fel sylfaen greiddiol i'r polisiau hyn ac i gydnabod yr iaith Gymraeg fel sgil yn y gweithle.
35. Bod y Cyngor Sir yn diwygio Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor er mwyn adlewyrchu disgwyliadau'r Safonau Iaith newydd.
36. Yn sgil yr adolygiadau i'r polisiau recriwtio a gweithlu, bod y Cyngor Sir yn paratoi rhaglen hyfforddiant lawn a chanllawiau i reolwyr a staff sy'n ymwneud â'r broses recriwtio a chefnogi'r gweithlu er mwyn sicrhau gweithrediad cyson o'r disgwyliadau ar draws pob adran o'r Cyngor. Bydd gofyn i swyddogion Adnoddau Dynol y Cyngor gynnig cefnogaeth barhaus i reolwyr wrth weithredu'r polisiau newydd gan wirio a herio gweithrediad yn ôl y gofyn.
37. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Fframwaith ALTE (*Association of Language Testers in Europe*) ynghyd ag un lefel sylfaenol ychwanegol ar gyfer penderfynu a dynodi anghenion ieithyddol swyddi.
38. Yn sgil mabwysiadu'r Fframwaith ALTE, bod y Cyngor Sir yn cynnal awdit sgiliau iaith holl staff y Cyngor a chofnodi'r canlyniad yn erbyn cofnod unigol staff ar y system adnoddau dynol ResourceLink.
39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.
40. Oni bai bod swyddi yn cael eu hasesu gyda'r disgwyliad am sgiliau iaith uwch trwy'r adolygiad o ofynion iaith Gymraeg ar gyfer swyddi'r Cyngor, bod y Cyngor Sir yn gosod lefel sylfaenol (fel rhan o'r fframwaith ALTE) fel y disgwyliad ar gyfer pob swydd newydd ac unrhyw swyddi cyfredol a hysbysebir o'r newydd. Os nad yw ymgeisydd llwyddiannus yn cyrraedd y lefel hon wrth benodi, bydd cefnogaeth yn

cael ei darparu er mwyn cyrraedd y lefel o fewn cyfnod penodedig. Bydd rheolwyr yn monitro hyn trwy'r broses arfarnu staff.

41. Ar gyfer swyddi lle gosodir lefelau uwch ond methir penodi yn ôl y gofyn, bod y Cyngor Sir yn gosod disgwyliadau yng nghytundeb yr ymgeisydd llwyddiannus i gyrraedd y lefel benodol yn unol â'r sgiliau sydd wedi nodi yn y swydd-ddisgrifiad.
42. Bod y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth lawn ac yn gweithredu gofynion y Safonau Iaith newydd bydd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2014-15.
43. Unwaith bydd y Cyngor wedi gweithredu'r camau uchod i gefnogi datblygiad y gweithlu, cyflwyno mesurau pellach i alluogi'r Cyngor i weithredu'n ddwyieithog gan roi pwyslais ar y defnydd cynyddol o'r Gymraeg.

3.4 Iaith ac Economi

- 3.4.1 Mae darparu isadeiledd cymunedol cadarn er mwyn galluogi a chefnogi hyfywedd ein cymunedau yn allweddol. Yn ogystal ag adeiladu sylfaen gymunedol gadarn a chyfleoedd cymdeithasol da mae sicrhau economi lewyrchus a swyddi o safon i bobl lleol yn gwbl allweddol i hyn. Heb y cyfleoedd hyn ni fydd yn bosib i'n pobl ifanc aros yn y sir.
- 3.4.2 Mae'r cydberthynas rhwng yr iaith ac economi hefyd yn ffactor. Nodwyd ynghynt fod y system addysg yn Sir Gaerfyrddin yn llwyddo i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg (er bod lle i wella ar y trefniadau presennol) ond dengys yr ystadegau mai siaradwyr Cymraeg dros dro yn unig yw'r rhain ac nad yw'r iaith yn cael ei chynnal yn y sir y tu hwnt i ddyddiau ysgol.
- 3.4.3 Yn ôl ystadegau Cyfrifiad 2011 nodwyd fod y ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn gostwng yn sylweddol o fewn y grŵp 15-24 oed (47.6%) o'i gymharu â'r grŵp 10-14 oed (60.1%) ac yna'n gostwng ymhellach yn y grŵp 25-44 oed (36.8%).
- 3.4.4 Yn ogystal dengys y Cyfrifiad 2011 fod nifer helaeth o bobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn gadael y sir ar ôl gorffen yn yr ysgol (boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio). Yng Nghyfrifiad 2001 nodwyd bod 28,000 o drigolion 3-15 oed yn Sir Gaerfyrddin ond erbyn 2011 (lle byddai'r un grŵp oed wrth reswm ddeng mlynedd yn hŷn) roedd nifer y trigolion yn y grŵp 16-24 oed yn rhifo 19,500 – 9,500 yn llai na'r ffigwr yn y grŵp oedran cyfatebol yn 2001. Mae'n ymddangos felly fod yn agos at un o bob tri o bobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn gadael y sir ar ôl gorffen yn yr ysgol ac mai'r tebygrwydd yw eu bod yn mynd i'r brifysgol neu'n gadael i chwilio am waith. O ystyried y canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg o fewn y grwpiau oed iau gallwn hefyd ddod i'r casgliad fod nifer sylweddol o'r rheini sy'n gadael y sir hefyd yn siaradwyr Cymraeg.
- 3.4.5 Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r llif cyson hwn o bobl ifanc yn gadael y sir mae'n rhaid mynd ati i greu cyfleoedd gwaith a swyddi lleol er mwyn galluogi ein pobl ifanc i aros yn yr ardal. Bydd galluogi pobl ifanc, sy'n bennaf yn siaradwyr Cymraeg, i aros yn eu cymunedau lleol yn gwbl allweddol os oes unrhyw gyfle i adeiladu ar y cymunedau hyfyw sydd gennym yn Sir Gaerfyrddin. Mae angen cynllunio datblygu economaidd bwriadus er mwyn cynyddu'r cyfleoedd hyn i'r dyfodol.
- 3.4.6 Mae sefydlu Dinas Rhanbarth Bae Abertawe yn gyfle da i brif-ffrydio'r Gymraeg yng nghynlluniau datblygu economaidd i'r dyfodol. Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfle unigryw o fewn y Dinas Ranbarth i sefydlu ei hun fel canolfan fusnes ddwyieithog a fydd nid yn unig yn gweinyddu poblogaeth ddwyieithog y sir a chreu profiad dwyieithog unigryw i ymwelwyr ond hefyd yn medru darparu cyfleoedd a bywoliaeth i weithlu dwyieithog a fyddai'n atgyfnerthu buddsoddiad y Cyngor Sir mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

3.4.7 Mae'n amserol hefyd i ystyried prif-ffrydio'r Gymraeg wrth baratoi am Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau cadarn o ran asesu effaith ieithyddol y rhaglenni newydd ac yn barod i ystyried os byddai'r rhaglenni newydd yn medru cefnogi datblygu economaidd mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg wedi dirywio'n sylweddol. Mae'r ceisiadau nawdd a chynlluniau gweithredu lleol yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ac mae'n gwbl allweddol fod yr iaith Gymraeg yn ganolog i unrhyw geisiadau lleol.

NOD: I brif ffrydio datblygiad yr iaith Gymraeg fel rhan ganolog o unrhyw gynlluniau datblygu economaidd o fewn Sir Gaerfyrddin

ARGYMHELLION:

44. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth y sector breifat o'r manteision economaidd sy'n deillio o weithredu'n ddwyieithog yn Sir Gâr gan adeiladu cyfleoedd i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog o fewn sectorau penodol e.e. hamdden, twristiaeth, diwydiannau creadigol, bwyd-amaeth, addysg feithrin.
45. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Gymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw a'r gallu i'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol i weithredu yn ddwyieithog.
46. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Gyrfa Cymru trwy'r Rhwydwaith 14-19 i hyrwyddo anghenion y sector breifat o ran sgiliau dwyieithog.
47. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda phartneriaid lleol er mwyn sicrhau bod S4C yn adleoli i Gaerfyrddin gan ddefnyddio'r datblygiad posibl hwn i adeiladu ar apêl Sir Gâr i gyrff a busnesau eraill yn y diwydiannau creadigol⁸.
48. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau statws canolog i'r iaith Gymraeg, datblygiad yr iaith o fewn Sir Gâr ac asesiad o effaith ar yr iaith Gymraeg trwy brosiectau newydd bydd yn cael eu datblygu ar gyfer arian Ewropeaidd, y Cynllun Datblygu Gwledig ac unrhyw ffynonellau datblygu economaidd a chymunedol eraill.

⁸ Ers cyfarfod diwethaf y Gweithgor ar 5 Mawrth 2014, derbyniwyd cadarnhad gan Awdurdod S4C ar 14 Mawrth o'i fwriad i adleoli pencadlys y sianel i Gaerfyrddin.

49. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau prif ffrydio'r Gymraeg yng nghynlluniau datblygu economaidd rhaglen Ddinas Ranbarth Abertawe ac yn enwedig wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer prif drefi Sir Gaerfyrddin. (Cydnabyddir fod argymhelliad tebyg wedi ei gynnig yn Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith' Rhagfyr 2013).

3.5 Sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg

3.5.1 Mae Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa ffodus gan fod ganddi ystod helaeth o sefydliadau, mudiadau a grwpiau cymunedol hynod o weithgar sy'n gweithio er budd yr iaith Gymraeg. Mae'r sefydliadau hyn naill ai yn gweithio'n uniongyrchol er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg neu yn gwneud hynny'n anffurfiol trwy eu gwaith cymunedol. Mae ystod o sefydliadau yn gweithio yn y maes hwn er enghraifft :

- Mentrau Iaith (Bro Dinefwr, Cwm Gwendraeth a Gorllewin Sir Gâr);
- Yr Urdd;
- Clybiau Gwawr a Merched y Wawr;
- Twf;
- Mudiad Meithrin;
- Canolfan Gymraeg i Oedolion Gorllewin Cymru;
- Mudiad y Ffermwyr Ifanc;
- Capeli ac Eglwysi;

ynghyd â Chynghorau Tref a Chymuned.

3.5.2 Mae'r gweithgarwch a'r bwrlwm cymunedol a grëir gan y mudiadau hyn ac eraill yn gwbl allweddol er mwyn cefnogi a datblygu'r iaith Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau, gan ddangos pwysigrwydd yr iaith y tu hwnt i'r gyfundrefn addysg.

3.5.3 Er bod tipyn o gydweithio anffurfiol eisoes yn bodoli rhwng y sefydliadau â'i gilydd yn ogystal â rhwng y sefydliadau â'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru, yn anffodus, ers diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg nid oes unrhyw fforwm ffurfiol ar gael i alluogi'r sefydliadau hyn i gyfarfod, trafod a chytuno ar gynlluniau gweithredu strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae pob un o'r sefydliadau hyn yn debygol o wynebu heriau o ran y gyllideb a'r capasiti sydd ganddynt i weithredu yn ystod y blynyddoedd nesaf, ar yr union adeg pan fod angen cynyddu ac ymestyn eu gweithgarwch. Mae sefydlu perthynas cydweithio gadarn ac effeithiol rhwng y sefydliadau hyn felly yn bwysicach nag erioed er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a chyfleusterau prin sydd ar gael ganddynt.

3.5.4 Mae'r cyswllt cymunedol yn gwbl allweddol i'r sefydliadau hyn ac maent mewn sefyllfa dda i adnabod ac ymgysylltu gyda busnesau, grwpiau a chlybiau chwaraeon a mudiadau trydydd sector eraill er mwyn cryfhau a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

3.5.5 Mae ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Sir Gâr yn 2014 hefyd yn gyfle i adeiladu ar y bwrlwm cymunedol. Mae Pwyllgorau Apêl Lleol wedi eu sefydlu ledled y sir gyda'r nod o godi £320,000 tuag at gynnal yr Eisteddfod. Mae mwyafrif helaeth yr arian yn

cael ei godi trwy weithgareddau cymunedol. Mae cyfle i adeiladu ar y pwyllgorau lleol hyn a'u datblygu ymhellach er mwyn cefnogi gwaith y sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg yn gymunedol. Mae'r elfen o berchnogaeth leol sy'n bodoli ymhlith y pwyllgorau apêl yn fan cychwyn allweddol ar gyfer unrhyw gynlluniau gweithredu a ddatblygir.

3.5.6 Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014 yn seiliedig ar yr 'Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe' hefyd yn gosod argymhellion y dylid eu hystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r cynlluniau gweithredu strategol y cyfeirir atynt uchod.

NOD: Bod adnoddau a sgiliau mudiadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg yn Sir Gâr yn cael eu targedu'n briodol ar sail dadansoddiad ystadegol manwl o ganlyniadau'r Cyfrifiad 2011 er mwyn cael yr effaith mwyaf cadarnhaol posib ar sefyllfa'r iaith.

ARGYMHELLION:

50. Bod y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y dadansoddiad sirol a pharhau gyda dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2011 ar sail wardiau cymunedol er mwyn paratoi cynllun/iau gweithredu lleol (ar sail Fframwaith Gweithredu'n Lleol Llywodraeth Cymru).
51. Bod y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru yn sefydlu Fforwm Iaith Sirol er mwyn gosod ffocws strategol i adfywiad yr iaith a datblygu cyfleoedd i gydweithio rhwng y cyrff a sefydliadau amrywiol sy'n gweithio er budd y Gymraeg yn Sir Gâr ac i fonitro cynnydd mewn perthynas â chynlluniau gweithredu lleol.
52. Bod y Fforwm Iaith Sirol yn cefnogi ac yn datblygu ymhellach y strwythur pwyllgorau apêl lleol sydd wedi ei sefydlu ar gyfer ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn 2014 er mwyn iddynt gymryd rôl flaenllaw yng nghynnal y cynllun/iau gweithredu lleol.
53. Bod y Cyngor Sir, mewn trafodaeth gyda'r tair menter iaith yn y sir, ac ar sail y dadansoddiad ystadegol, yn comisiynu gwaith penodol i bob menter ei gyflawni. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 'Adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe' wrth lunio'r rhaglen waith.
54. Bod y Cyngor Sir a'r Mentrau Iaith lleol yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys iaith yr hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb (hefyd wedi'i gynnwys yn yr adran Cyfleoedd Cymunedol).

3.6 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sir

- 3.6.1 Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn pob agwedd o fywyd bob dydd yn holl bwysig i bob un o siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin ond yr hyn sy'n allweddol bwysig yw'r gallu i ddangos i bobl ifanc y sir ei fod yn bosib defnyddio'r Gymraeg y tu allan i strwythurau ffurfiol addysg a'i bod yn iaith fyw yn eu cymunedau. Fel sydd eisoes wedi nodi mae system addysg y sir yn llwyddo i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg, ond rhai dros dro yn unig yw'r rhain, felly mae'n bwysig sefydlu'r Gymraeg fel rhan o weithgarwch a bywyd dydd i ddydd y sir.
- 3.6.2 Mae'r adroddiad eisoes wedi sôn am rai o'r opsiynau i ddatblygu'r cyfleoedd hynny trwy gydweithio gyda mudiadau eraill yn Sir Gaerfyrddin sy'n gweithio er budd y Gymraeg ond mae rhai elfennau o'r ddarpariaeth mae'r Cyngor yn gweinyddu ei hun ac mae angen ehangu'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg oddi fewn i'w wasanaethau cymunedol. Mae'r gwasanaeth ieuencid a gwasanaethau hamdden a diwylliant er enghraifft yn feysydd lle dylid Cymreigio'r ddarpariaeth a chynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'n defnyddwyr.
- 3.6.3 O ran gwasanaethau ieuencid a chlybiau ieuencid yn fwy penodol, o ystyried darpariaeth y Cyngor ac asiantaethau eraill megis y Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, mae ystod eang o gyfleoedd ar gael ar draws y sir. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Plant wedi cwblhau adolygiad diweddar o'r ddarpariaeth yn Sir Gaerfyrddin ac mae'r Gweithgor yn cefnogi argymhellion y Grŵp yn llawn yn enwedig y galw am roi blaenoriaeth i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwelir hefyd fod cyfle i ddatblygu'r berthynas cydweithio rhwng y Cyngor Sir ac asiantaethau fel y Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, dau fudiad sy'n hynod o weithgar o fewn y sir.
- 3.6.4 O ran gwasanaethau hamdden a diwylliant rydym wedi ystyried darpariaeth canolfannau hamdden, parciau gwledig, llyfrgelloedd a theatrau ac yn gweld cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaethau hyn ymhellach o ran eu defnydd o'r iaith Gymraeg. O safbwynt y Cyngor, rhain yw'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn ymwneud fwyaf â nhw ac mae cyfle i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol iawn.

3.6.5 Bydd angen cefnogi staff o fewn y ddau faes gwasanaeth er mwyn datblygu eu sgiliau ac ymagweddau at ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ymhellach gan adeiladu ar y system Pencampwyr Iaith sydd eisoes wedi ei sefydlu o fewn y canolfannau hamdden.

3.6.6 Yn ogystal â darpariaeth y Cyngor mae nifer o glybiau a grwpiau cymunedol yn cynnig cyfleoedd hamdden, er enghraifft, clybiau chwaraeon, drama a cherddoriaeth, ac mae angen gweithio gyda'r rhwydwaith hwn o fudiadau i'w cefnogi i ddwyieithogi eu darpariaeth yn y gymuned. Mae gan yr undebau chwaraeon cenedlaethol rôl allweddol yn hynny o beth ac mae angen iddynt osod esiampl trwy weithredu'n ddwyieithog a gosod disgwyliadau ar glybiau lleol i wneud yr un fath.

NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.

ARGYMHELLION: yn ymwneud â gwasanaethau ieuenctid, hamdden a diwylliant;

Gwasanaethau Ieuenctid

55. Bod y Cyngor Sir yn cydlynu grŵp gweithredu strategol fyddai'n cynnwys ysgolion uwchradd, mudiadau ieuenctid y sir, y sector addysg bellach ac uwch a'r sector hamdden i gynllunio a chysylltu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael o fewn y Sir, i dargedu adnoddau yn ôl y gofyn ac i adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

56. Bod y grŵp gweithredu strategol yn sicrhau ei fod yn datblygu cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg a fydd yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r cwricwlwm addysgol.

57. Bod y Cyngor Sir yn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ei wasanaeth ieuenctid ac yn cefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

58. Yn unol ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glybiau Ieuenctid (Ionawr 2014) blaenoriaethu cynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r ymagwedd strategol newydd drwy gomisiynu rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth ieuenctid agored trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hamdden a Diwylliant

59. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod gwersi nofio cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob canolfan hamdden ar draws Sir Gâr;
60. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden eraill drwy gyfrwng y Gymraeg;
61. Bod y Cyngor Sir yn cefnogi staff y gwasanaeth hamdden (gan gynnwys canolfannau hamdden, parciau gwledig, llyfrgelloedd a theatrau) sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn;
62. Bod y Cyngor Sir yn ymestyn y prosiect Pencampwyr Iaith lle mae'r Cyngor wedi adnabod Pencampwr Iaith i weithredu ym mhob Canolfan Hamdden ar draws y sir ar hyn o bryd, i gynnwys y parciau gwledig, y llyfrgelloedd a'r theatrau;
63. Bod y Cyngor Sir a'r Mentrau Iaith lleol yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys iaith yr hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb (hefyd wedi'i gynnwys yn yr adran sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg);
64. Bod y cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw brosiectau neu wasanaethau i'w gweithredu o fewn Sir Gâr;
65. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agosach gyda Theatr Genedlaethol Cymru er mwyn cynnig cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg;
66. Bod y Cyngor Sir yn denu a hyrwyddo perfformiadau Cymraeg a dwyieithog o fewn eu theatrau sirol.


3.7 Trosglwyddiad iaith

3.7.1 Mae trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd yn ffactor allweddol wrth drafod parhad a datblygiad yr iaith. Gall y system addysg gynhyrchu siaradwyr Cymraeg ond mae sefydlu arfer ac agwedd at iaith yn digwydd o gyfnod cynnar iawn yn natblygiad plentyn. Yn hynny o beth mae cynnig cefnogaeth i rieni wrth fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at yr iaith a chynghor ymarferol ar sut i wneud hyn o fewn eu haelwydydd a chymunedau yn holl bwysig.

3.7.2 Dyma yn ei hanfod yw bwriad cynllun Twf (sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru). Mae'r cynllun yn gweithio gyda rhieni a'u cefnogi o'r cyfnod cyn-geni hyd nes bod y plentyn yn rhyw 6 mis i flwydd oed ac yn cynnig cefnogaeth arweiniol ac ymarferol iddynt ar sut i gyflwyno'r iaith fel rhan o fywyd pob dydd y teulu.

3.7.3 Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011 rydym yn gweld newid o ran strwythur iaith teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin. Yn 2011 roedd 25.4% o aelwydydd y sir yn rhai Cymraeg (o gymharu â 29.4% yn 2001), 23.6% yn aelwydydd cymysg eu hiaith (22.7% yn 2001) a 51.0% yn ddi-Gymraeg (42.6% yn 2001) – newid o 8.4% ers 2001. Serch hynny, yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 45.5% o blant 3-4 oed Sir Gaerfyrddin yn gallu siarad Cymraeg ac mai 76.7% o'r plant 3-4 oed sy'n byw ar aelwyd Gymraeg yn gallu siarad yr iaith. Mae hyn wedi cynyddu o 72.9% yn 2001.

3.7.4 Mae strwythur y cartref hefyd yn ffactor ymhlith y grŵp o blant ar aelwydydd Cymraeg gyda 85% o blant 3-4 oed yn medru'r Gymraeg mewn aelwydydd dau riant lle mae dau oedolyn yn medru'r iaith o gymharu â 57.7% mewn aelwydydd dau riant lle mae un oedolyn yn medru'r Gymraeg. Dylid nodi mai 58.8% yw'r ganran mewn cartrefi un rhiant gyda'r rhiant yn siarad Cymraeg.



Tabl 7: Trosglwyddiad iaith yn y cartref, Sir Gaerfyrddin 2001 a 2011, Niferoedd a chanrannau plant 3-4 sy'n siarad Cymraeg

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan *Dr Dylan Phillips*

3.7.5 Gwelir felly fod rôl gwbl allweddol gan rieni i'w chwarae wrth drosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd ond ei bod yn bwysig peidio rhoi'r pwysau hyn i gyd ar ysgwyddau'r rhieni gan fod rôl gan gymdeithas gyfan i'w chwarae yn y cyd-destun hwn trwy gyflwyno gwerthoedd cadarnhaol tuag at y Gymraeg o fewn ein cymunedau.

3.7.6 Yn ogystal â'r gwaith mae Twf yn ei wneud o fewn y cyfnod cynnar mae'r Mudiad Meithrin hefyd yn cynnig cefnogaeth cyn-addysg ffurfiol i gyflwyno a datblygu'r Gymraeg trwy eu cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi. Mae darpariaeth y Mudiad yn Sir Gaerfyrddin yn helaeth ond er mwyn medru ymdopi gyda'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mae'r Cyngor Sir wrthi ar hyn o bryd yn cynnal arolwg o ddigonolrwydd gofal plant, gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ffactor allweddol yn yr arolwg. Mae'r arolwg yn cynnwys darpariaeth gwarchodwyr, cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd a chlybiau gofal ar ôl ysgol a gwyliau.

3.7.7 Cynhelir rhai o'r clybiau gofal ar ôl ysgol a chlybiau yn ystod gwyliau'r ysgol gan Fentrau Iaith y Sir. Mae gweithio a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith teuluoedd, plant a phobl ifanc yn rhan o'u targedau craidd ac maent yn cynnal digwyddiadau lu ar draws y sir i'r perwyl hwn.

3.7.8 Mae'r Cyngor Sir hefyd yn gweithredu rhaglen Dechrau'n Deg mewn rhannau o'r sir (yng Nghaerfyrddin a Llanelli yn bennaf). Rhaglen yw hon sy'n cael ei gweithredu'n lleol ar ran Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o gynnig cefnogaeth i deuluoedd sydd â phlant dan 4 oed ac sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir. Mae'r cyswllt rhwng rhaglenni o'r fath a datblygiad yr iaith yn y sir yn gwbl allweddol ac mae angen sicrhau fod yr iaith yn greiddiol i ddatblygiad y rhaglen.

NOD: I sicrhau cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn aelwydydd cyfrwng Cymraeg ac aelwydydd iaith gymysg ac i gynnig cefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg i gyflwyno'r Gymraeg.

ARGYMHELLION:

67. Bod y Cyngor Sir yn cyd-weithio gyda chyrrff a phrosiectau megis Twf (mudiad sy'n hyrwyddo trosglwyddo iaith yn y teulu) a'r Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dwyieithrwydd yn y sector cyn-ysgol trwy dargeddu cymunedau penodol o fewn Sir Gâr yn ôl dadansoddiad ystadegol o'r defnydd o'r Gymraeg.
68. Bod y Cyngor Sir yn hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg i ddarparu rieni o fewn gweithlu'r Cyngor.
69. Bod Llywodraeth Cymru gyda chydweithrediad y Cyngor Sir yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i gynlluniau tebyg i Dechrau'n Deg.

3.8 Marchnata'r iaith

- 3.8.1 Yn fuan iawn yn nhrefodaethau'r Gweithgor daeth yr angen i farchnata budd a chodi statws yr iaith Gymraeg i'r amlwg. Bydd yn bwysig i ystyried y Gymraeg a'i manteision yn nhermau addysgol, cymdeithasol a phroffesiynol gan deilwra'r neges yn ôl y gynulleidfa.
- 3.8.2 Mae nifer o fudiadau a chyrrff yn gweithio er budd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin (fel y nodwyd ym mharagraff 3.5. uchod) ac mae'n bwysig ein bod yn cyfleu neges gadarnhaol gyson i'r boblogaeth o ran y manteision. Yn ogystal, mae adnoddau'r mudiadau a'r cyrrff hyn yn mynd yn brinnach felly byddai'n gwneud synnwyr ariannol i gydweithio ar baratoi neges gyffredin i'w ledaenu ar draws y sir trwy bob rhwydwaith a sianeli posib.
- 3.8.3 O safbwynt addysgol, bydd yn bwysig i sicrhau fod yr ymgyrch i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn cyd-fynd gyda'r cynlluniau i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir. Bydd angen i'r ymgyrchoedd hyn fynd law yn llaw er mwyn atgyfnerthu ei gilydd. Yn ogystal, bydd angen cysylltu gyda'r ymgyrch i farchnata addysg cyfrwng Cymraeg a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2013, sef 'Byw yng Nghymru: Dysgu yn Gymraeg?'.
- 3.8.4 Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae gennym garfan o ryw 20,000 o bobl yn Sir Gaerfyrddin sy'n nodi eu bod yn medru deall Cymraeg ond nid ei siarad. Mae'n bwysig ein bod felly yn cydweithio fel asiantaethau i adnabod a chefnogi'r garfan hon o bobl i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach er mwyn eu galluogi i ddod yn rhugl o fewn eu cylchoedd cymdeithasol neu i gefnogi eu datblygiad proffesiynol o fewn y gweithle.

NOD: Bod asiantaethau sy'n gweithio er budd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn cyfleu neges gadarnhaol gyson o ran manteision y Gymraeg yn nhermau addysgol, cymdeithasol a phroffesiynol.

ARGYMHELLION:

70. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, yn cynnal ymgyrch farchnata barhaol i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion (*hefyd wedi ei gynnwys yn argymhellion adran addysg*).
71. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Mentrau Iaith lleol, gwerthwyr tai a system 'cofrestru treth' y Cyngor Sir i ddatblygu pecyn 'Croeso i Sir Gâr' ar gyfer trigolion newydd a datblygu rhaglen ddosbarthu trwy weithio ar y cyd gyda grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned (*hefyd wedi ei gynnwys yn yr adran Cynllunio a Thai*).
72. Bod y Cyngor Sir, Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda mudiadau eraill sy'n gweithio er budd y Gymraeg yn Sir Gâr er mwyn cynnal ymgyrch farchnata a neges gyson i fagu hyder a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y Sir.
73. Bod y Cyngor Sir yn annog a hyrwyddo trigolion Sir Gâr i ddysgu Cymraeg ac yn hysbysebu'r gefnogaeth leol sydd ar gael i wneud hynny.

4. Atodiadau

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth Gweithgor y Cyfrifiad

Atodiad 2: Ysgolion fesul categori iaith

Atodiad 3: Sefydliadau ac unigolion a fu'n cyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Gweithgor

Nod

I ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar yr iaith Gymraeg yn Sir Gâr ac ystyried ffyrdd gall y Cyngor a'r gymuned ehangach fynd i'r afael â'r dirywiad yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg.

Amcanion

- Dadansoddi a dehongli ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn genedlaethol, sirol a fesul ward i adnabod tueddiadau ac effeithiau lleol.
- Ystyried darganfyddiadau adolygiadau cenedlaethol am yr iaith Gymraeg a gyflawnwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru (ac eraill lle bo'n briodol).
- Ystyried cyd-destun yr iaith Gymraeg o fewn polisiau'r Cyngor.
- Cymryd tystiolaeth oddi wrth bartïon sydd â diddordeb.
- Cytuno ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r dirywiad yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr.

Aelodaeth

Bydd y grŵp traws-bleidiol yn cynnwys 9 aelod etholedig. Y pleidiau i gadarnhau cynrychiolwyr fel a ganlyn:

- 3 cynrychiolydd Plaid Cymru
- 3 cynrychiolydd Llafur
- 3 cynrychiolydd Annibynnol.

Trefniadau

- Bydd y Gweithgor yn ethol Cadeirydd o blith yr aelodau.
- Bydd y grŵp yn adrodd ar ei ddarganfyddiadau o fewn 6 mis o'i sefydlu i Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau.
- Cefnogir y Grŵp gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Cwsmeriaid a Pholisi) a swyddogion o Dîm Polisi a Phartneriaethau, Adran Y Prif Weithredwr.

Aelodaeth y Gweithgor

Cynghorydd Ryan Bartlett, Plaid Lafur

Cynghorydd Cefin Campbell, Plaid Cymru (Cadeirydd)

Cynghorydd Joseff Davies, Grŵp Annibynnol

Cynghorydd Terry Davies, Plaid Lafur

Cynghorydd Wyn Evans, Grŵp Annibynnol

Cynghorydd Calum Higgins, Plaid Lafur (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Gwyn Hopkins, Plaid Cymru

Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths, Plaid Cymru

Cynghorydd Edward Thomas, Grŵp Annibynnol

Yn arsylwi:

Cynghorydd Mair Stephens, Aelod Bwrdd Gweithredol gyda chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg

Atodiad 2: Ysgolion fesul categori iaith

Ysgolion Cynradd

Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg	CC
Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd	Dff
Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg / Trawsnewidiol	TR
Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg hefyd	SC
Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf	CS

Enw'r Ysgol	Oedran	Categori iaith
Ysgol Feithrin Rhydaman / Ammanford Nursery School	3-5	Dff
Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant	4-11	CC
Ysgol Gynradd Banccfosfelen	4-11	CC
Ysgol Bancyfelin	4-11	CC
Ysgol Gynradd Beca	4-11	CC
Ysgol Gynradd Betws	4-11	TR
Ysgol Gynradd Bigyn Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Blaenau	4-11	CC
Ysgol Bro Banw	4-11	Dff
Ysgol Bro Brynach	3-11	CC
Ysgol Gynradd Cymunedol Bryn Community Primary School	3-11	CS
Ysgol Gymraeg Brynsierfel	3-11	CC
Ysgol Bryn Teg	3-11	CS
Ysgol Gynradd Brynaman	3-11	CC
Ysgol Gynradd Brynsaron	4-11	CC
Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn / Burry Port Community Primary School	3-11	CS
Ysgol Bynea School	4-11	CS
Ysgol Cae'r Felin	4-11	CC
Ysgol Carreg Hirfaen	4-11	CC
Ysgol Gynradd Carwe	4-11	CC
Ysgol Gynradd Cefneithin	4-11	CC
Ysgol Plant Bach Copperworks Infant School	3-7	SC
Ysgol Gynradd Cross Hands	3-11	CC

Enw'r Ysgol	Oedran	Categori laith
Ysgol Gynradd Cwrt Henri	4-11	CC
Ysgol Gymunedol Cynwyl Elfed	4-11	CC
Ysgol Gynradd Dafen Primary School	3-11	CS
Ysgol Gymraeg Dewi Sant	3-11	CC
Ysgol Gynradd Drefach	4-11	CC
Ysgol Gynradd Ffair-fach	4-11	CC
Ysgol Gymunedol Ffwrnes	3-11	CC
Ysgol Gynradd Pum-heol / Five Roads	4-11	CC
Ysgol Gynradd Gors-las	4-11	CC
Ysgol Griffith Jones	3-11	DFf
Ysgol Gymraeg Gwenllian	3-11	CC
Ysgol Gynradd Gwynfryn	4-11	CC
Ysgol Gynradd Hafodwenog	4-11	CC
Ysgol Gynradd Halfway Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Hendy Primary School	4-11	DFf
Ysgol Gynradd Tre-loan / Johnstown Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Maes-llyn / Lakefield Primary School	4-11	CS
Ysgol Gynradd Llan-gain	3-11	CC
Ysgol Gynradd Llandeilo Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Llandybie Primary School	3-11	TR
Ysgol Gynradd Llanedi Primary School	4-11	SC
Ysgol Gynradd Llangadog	4-11	CC
Ysgol Babanod Llangennech Infant School	4-7	DFf
Ysgol Iau Llangennech Junior School	7-11	DFf
Ysgol Gynradd Llangynnwr	3-11	DFf
Ysgol Gynradd Llanmiloe Primary School	4-11	CS
Ysgol Gynradd Llannon	4-11	CC
Ysgol Gynradd Llanpumsaint	4-11	CC
Ysgol Gynradd Llansadwrn	4-11	CC
Ysgol Gynradd Llansawel	4-11	CC
Ysgol Gynradd Gymunedol Llansteffan	4-11	CC
Ysgol Gynradd Llanwrda	4-11	CC
Ysgol Gynradd Llanybydder	4-11	CC
Ysgol Gynradd Llechyfedach	4-11	CC
Ysgol Llys Hywel	4-11	DFf
Ysgol Maes y Morfa	3-11	SC
Ysgol Gynradd Maes-y-bont	4-11	CC
Ysgol Gynradd Cymunedol Meidrim	4-11	CC
Ysgol Gynradd Mynydd y garreg	4-11	CC
Ysgol Gynradd Myrddin Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Nantgaredig	3-11	CC
Ysgol Gymunedol Heol Hen / Old Road Community School	4-11	CS

Enw'r Ysgol	Oedran	Categori laith
Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn	4-11	CC
Ysgol Gynradd Parc-yr-hun Primary School	4-11	DFf
Ysgol Pen-bre / Pembrey School	4-11	CS
Ysgol Gymunedol Peniel	4-11	CC
Ysgol Gynradd Penygaer Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Penygroes	4-11	CC
Ysgol Gynradd Pont-henri	4-11	CC
Ysgol Gynradd Pont-iets	4-11	CC
Ysgol Gynradd Pontyberem	4-11	CC
Ysgol Gynradd Pwll Primary School	4-11	CS
Ysgol Gymraeg Rhydaman	4-11	CC
Ysgol Rhys Prichard	4-11	DFf
Ysgol Gynradd Parc Waun-dew / Richmond Park Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Saron Primary School	4-11	TR
Ysgol Gynradd Stebonheath Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd Swiss Valley Primary School	4-11	SC
Ysgol Gynradd Talylychau	4-11	CC
Ysgol Gymraeg Teilo Sant	3-11	CC
Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School	3-11	DFf
Ysgol Gynradd Tycroes Primary School	4-11	CS
Ysgol Gynradd y Tymbl	4-11	CC
Ysgol y Bedol	3-11	CC
Ysgol y Castell	3-11	CS
Ysgol y Dderwen	3-11	CC
Ysgol y Ddwylan	4-11	DFf
Ysgol y Felin	4-11	DFf
Ysgol y Fro	4-11	CC
Ysgol Gynradd W Rh Abergwili	4-11	CC
W Rh Yr Eglwys yng Nghymru Glanyfferi	4-11	CC
Ysgol Gynradd W Rh Lacharn Laugharne V C Primary School	4-11	SC
Ysgol Gynradd W Rh Llanddarog	4-11	CC
Ysgol Gynradd W Rh Llanllwni	4-11	CC
Ysgol Gynradd W Rh Tremoilet V C Primary School	4-11	CS
Ysgol Gynradd W G Llanfynydd	4-11	CC
Ysgol Gynradd W G yr Eglwys Yng Nghymru Model Church in Wales V A Primary School	3-11	CS
Ysgol Gynradd W G yr Eglwys Yng Nghymru Penboyr	4-11	CC
Ysgol Gynradd W G yr Eglwys Yng Nghymru Pentip Church in Wales V A Primary School	4-11	CS
Ysgol y Santes Fair Caerfyrddin / St. Mary's School Carmarthen	3-11	SC
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair / St. Mary's Catholic Primary School	3-11	CS

Ysgolion Addysg Anghenion Penodol

Ysgol Heol Goffa
Ysgol a Gwasanaeth Cynnal Rhydygors / Rhydygors School & Support Services

Ysgolion Uwchradd

CC	Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
2A	Ysgol Uwchradd Ddwylieithog Categori 2A - Mae o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.
2B	Ysgol Uwchradd Ddwylieithog Categori 2B - Mae o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
2C	Ysgol Uwchradd Ddwylieithog Categori 2C - Mae 50 - 79% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
2Ch	Ysgol Uwchradd Ddwylieithog Categori 2Ch - Mae pob pwnc, ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, yn cael eu dysgu i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall.
SC	Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg: mae 20-49 % o'r pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.]
CS	Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf lle y gellir dewis dysgu neu 2 o bynciau, o bosibl, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol Bro Dinefwr	2B
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	2A
Ysgol Bryngwyn School	CS
Ysgol Coedcae School	CS
Ysgol Dyffryn Aman	2B
Ysgol Dyffryn Taf	SC
Ysgol Gyfun Emlyn	CS
Ysgol Glan-y-môr School	CS
Ysgol Maes y Gwendraeth	2A
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth / Queen Elizabeth High School	SC
Ysgol y Strade	2A
Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd / St. John Lloyd Catholic Comprehensive School	CS

Atodiad 3: Sefydliadau ac unigolion a fu'n cyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor

16 Mai 2013	Cyflwyniad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan Rob Sully, Gareth Morgans a Catrin Griffiths
3 Mehefin 2013	Cyflwyniad gan Hywel Jones , Ystadegydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
1 Gorffennaf 2013	Rhieni dros Addysg Gymraeg – cyflwyniad gan Heini Gruffudd a Ceri Owen Cynllunio a'r Gymraeg – cyflwyniad gan Eifion Bowen, Ian Llywelyn a Rachel Bowen
25 Gorffennaf 2013	Coleg Sir Gâr – cyflwyniad gan Dr Nia Cole Jones Prifysgol y Drindod Dewi Sant – cyflwyniad gan Gruffydd Ifan
4 Medi 2013	Cyflwyniad gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg – Cen Llwyd, Ffred Ffrancis, Sioned Elin a Bethan Williams
23 Medi 2013	Cyfarfod â Chynghorau Ceredigion, Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru gan ffocysu ar feysydd Addysg, Cynllunio a Gweinyddiaeth Fewnol
7 Hydref 2013	Cyflwyniad gan Ian Jones , Pennaeth Hamdden a Chwaraeon Cyngor Sir Gâr Dyfodol i'r Iaith – cyflwyniad gan Heini Gruffudd a Huw Edwards
28 Hydref 2013	Cyflwyniad gan Matt Morden , Rheolwr Rhwydweithiau Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Gâr
14 Tachwedd 2013	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru – cyflwyniad gan Elen Davies, Llywydd UCAC. Menter Bro Dinefwr – cyflwyniad gan Owain Gruffydd ac Owain Glenister. Menter Cwm Gwendraeth – cyflwyniad gan Catherine Ings a Nerys Burton. Menter Gorllewin Sir Gâr – cyflwyniad gan Diana Davies a

	Dafydd Davies.
2 Rhagfyr 2013	<p>Cyflwyniad gan Robin Staines, Pennaeth Tai a Matt Miller, Rheolwr Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Gâr.</p> <p>Cyflwyniad gan Robert Young, Rheolwr Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Gâr.</p> <p>Undeb Cenedlaethol yr Athrawon – cyflwyniad gan Valerie Davies ac Owen Hathway.</p>
16 Rhagfyr 2013	<p>Cyflwyniad gan Dr Dylan Phillips – gwaith ymchwil ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011.</p> <p>Y Gymraeg ac Economi – cyflwyniad gan Helen Morgan a Simon Richards, Adran Adfywio, Cyngor Sir Gâr.</p>
7 Ionawr 2014	Cyflwyniad gan Paul Thomas , Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) ar weinyddiaeth fewnol